

Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Partneriaethau

Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Gorffennaf 2019

Amser: 5.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr M Rahman (Cadeirydd), D Davies, S Marshall, M Spencer, T Suller and K Whitehead

James Harris (Strategic Director - People), Sarah Morgan (Chief Education Officer), Andrew Powles (Assistant Head of Education - Engagement and Learning), Meryl Lawrence (Cyngorydd Craffu) and Neil Barnett (Swyddog Llywodraethu)

Yn bresennol: G Willington, H Davies-Edwards, E Price and Diamond

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Y Forsey and J Hughes

1 Datganiadau o Fuddiant

Dim.

2 Gwasanaeth Cyflawni Addysg - Gwerth am Arian, Blwyddyn Ariannol 2018-19

Mynychwyr:

- James Harris (Cyfarwyddwr Strategol - Lle)
- Sarah Morgan (Prif Swyddog Addysg)
- Andrew Powles (Dirprwy Brif Swyddog Addysg)
- Geraint Willington (Cyfarwyddwr - Adnoddau, Busnes a Llywodraethu, EAS)
- Hayley Davies-Edwards (Gwasanaeth Cyflawniad Addysg)
- Ed Price (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Polisi a Strategaeth, EAS)

Cyflwynodd Cyfarwyddwr EAS drosolwg byr i'r Pwyllgor gan dynnu sylw at y meysydd allweddol i'w hystyried. Daeth yr adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn asesu perfformiad yr EAS i'r casgliad bod yr EAS yn darparu gwerth da am arian o ran yr agweddau hynny sydd o fewn ei reolaeth, yn benodol: economi; effeithlonrwydd; ecwiti a chynaliadwyedd. Fodd bynnag, roedd yn ofynnol i weithredu ar y cyd sy'n cynnwys EAS, ei awdurdodau lleol cyfansoddol ac arweinwyr ysgolion ymdrin â phryderon ynghylch canlyniadau addysgol ledled y rhanbarth a'r ysgolion hynny sy'n tanberfformio.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Croesawodd Aelod yr adroddiad, ac o ran Rhwydweithiau Dysgu gofynnodd a oedd yr EAS yn hyderus pan ofynnir i ysgol gefnogi ysgol arall, nad yw'n cael effaith andwyol ar ddysgu yn yr ysgol sy'n cynorthwyo.

Dywedwyd wrth yr aelodau y gofynnwyd i'r Awdurdod Lleol am farn, sy'n ystyried perfformiad blaenorol, salwch, ayb, ac weithiau'r farn oedd na ddylai fynd yn ei flaen. Mae'r EAS yn edrych ar geisiadau ac yn gallu craffu a yw ysgolion wedi ystyried cynnig eu

cefnogaeth eu hunain. Bu adegau pan gytunwyd ar gynigion a edrychai'n dda ar bapur, ond y credwyd na ddylent fynd yn eu blaenau. Dywedodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol EAS wrth yr Aelodau fod gan yr EAS yr hyblygrwydd hefyd i wahodd ysgolion eraill i gymryd rhan.

Dywedodd y Prif Gynghorydd Her wrth yr Aelodau fod gan EAS fwy o ysgolion a oedd eisiau bod yn ysgolion dysgu nag oedd eu hangen, felly roeddent wedi cael eu rhoi ar restr aros.

- Gofynnodd yr aelodau a ellid ymgymryd â'r adroddiad Gwerth am Arian yn fewnol gan swyddogion EAS yn hytrach nag yn allanol, ac os felly faint o arian y gellid ei arbed.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod y Consortiwm yn gweithio ar draws 5 ardal Awdurdod Lleol gyda'r gwahanol awdurdodau'n gweithio'n annibynnol, teimlwyd ei bod yn bwysig bod hyn yn cael ei wneud yn allanol neu byddai'r EAS yn craffu arnynt eu hunain. Esboniwyd bod yr EAS wedi dysgu llawer gan awdur yr adroddiad o'i brofiad blaenorol yn Swyddfa Archwilio Cymru a'i sgiliau yn gwerthuso gwerth am arian.

- Cyfeiriodd Aelod at yr offer y gallai ysgolion eu defnyddio ar dudalen 33, a gofynnodd sut brofiad oedd y berthynas waith rhwng yr EAS a'r Awdurdod Lleol.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod parch mawr i'r gwaith partneriaeth rhwng Casnewydd a'r EAS a bod pwerau statudol yn cael eu cymryd o ddifrif ac y gweithredir arnynt yn gyflym. Eglurwyd, wrth i'r EAS weithio'n rhanbarthol, y byddai angen i'r Awdurdod Lleol arwain weithiau ac roedd yn bwysig i'r EAS beidio ag arwain pob protocol. Esboniwyd buddion rhannu gwybodaeth a rhoddwyd enghreifftiau o ysgolion mewn gwahanol ardaloedd a oedd yn debyg. Roedd yr EAS yn hyderus bod Casnewydd wedi bod yn llais arweiniol fel awdurdod lleol yn y strategaeth pryderon ysgolion.

- Gofynnodd Aelod a oedd gan ysgolion unrhyw broblemau o ran plant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac a fyddai ysgolion mewn rhanbarthau eraill yn gallu helpu.

Dywedwyd wrth yr aelodau y gellid darparu gwaith arbenigol Anghenion Dysgu Ychwanegol yn rhanbarthol. Gellir paru ysgolion hefyd y nodwyd bod ganddynt blant ag anghenion dysgu ychwanegol. Dywedwyd wrth yr aelodau bod bylchau yn bodoli lle mai dim ond 35 o ysgolion uwchradd sydd yno ac nad oedd y paru'n effeithiol. Roedd yr EAS yn symud i weithio mwy gyda phartneriaid o ranbarthau eraill a dywedwyd bod nifer o bartneriaid yn ymweld â rhanbarthau eraill i sicrhau cefnogaeth.

Dywedodd y Cynghorydd Her wrth y Pwyllgor fod gan Gasnewydd ysgolion uwchradd sy'n cyflawni'n uwch, a oedd wedi perfformio'n dda yn y rhanbarth. Roedd hyn yn darparu cyfleoedd i weithio gydag ysgolion tebyg mewn ardaloedd eraill, a gododd y bar ymhellach i'r ysgolion hyn, e.e. darparu partneriaethau ffurfiol gyda Chaerdydd a thu hwnt.

- Gofynnodd Aelod am yr heriau yng Nghyfnod Allweddol 4 ar lefel ysgol uwchradd.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod angen i EAS ganolbwyntio ar waith clwstwr a throsiannol, a soniwyd am y clystyrau cryf yng Nghasnewydd. Wrth i'r cwricwlwm newid, myfyrwr Blwyddyn 4 fyddai'r cyntaf i wneud y TGAU newydd, felly mae angen iddynt sicrhau bod cefnogaeth drosiannol ar waith i ddysgwyr. Roedd y system gyfan yn newid, fel roedd y cynllun busnes yn adlewyrchu.

- Cyfeiriodd Aelod at Dudalen 37 yr adroddiad fod 29 o 35 o glystyrau ysgolion yn ymgysylltu a gofynnodd a oedd hi'n anodd cael arweinwyr mewn partneriaethau i gymryd rhan.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod yr ymgysylltiad â Phrifathrawon yn weddol uchel. Efallai na fydd rhai mentrau yn iawn iddynt ar y pryd. Anfonir gwybodaeth am ddiffyg ymgysylltu yng Nghasnewydd at y Dirprwy Brif Swyddog Addysg bob tymor, ond roedd rhywfaint o ddiffyg ymgysylltu â rhesymeg berffaith dda. Dywedwyd wrth yr aelodau hefyd y bu newid arweinyddiaeth mewn dau glwstwr, ond y byddent yn eu lle ym mis Medi.

- Gyda chyllid yn cael ei leihau 30%, gofynnodd Aelod sut roedd adnoddau'n cael eu defnyddio'n llawn trwy weithio mewn partneriaeth.

Esboniodd y Cynghorydd Her fod y ffyrdd y mae EAS yn cefnogi ysgolion wedi newid, ers 2014 bu 5 mlynedd o arfer esblygol a disgwylid i'r Cynghorydd Her fod â dyfnder gwybodaeth ar gyfer ysgolion, ond efallai na fydd ond yn brocerio cefnogaeth.

- Gofynnodd Aelod pa bartneriaethau eraill oedd gan yr EAS mewn perthynas â Phlant sy'n Derbyn Gofal.

Dywedodd swyddogion fod Arweinydd Cydraddoldeb a Llesiant wedi'i benodi'n ddiweddar a oedd yn cydgysylltu'n agos iawn yn y rhanbarth, yn dilyn y gydnabyddiaeth bod Llesiant yn rhan hanfodol o ddysgu. Dywedwyd hefyd bod adolygiad peilot ysgol / adolygiad partneriaeth cyflawn wedi'i gynnal eleni am y tro cyntaf.

- Eglurwyd bod gan Benaethiaid gyfrifoldeb am gyllideb ysgolion fel rhan o'u cyfrifoldebau cyffredinol.
- Gofynnodd Aelod pam fod nifer yr ysgolion uwchradd coch bron wedi dyblu.

Dywedodd swyddogion fod pob ysgol uwchradd yn cael ei thrin mewn ffordd bwrpasol. Llwyddodd yr EAS i gynnig cefnogaeth, hyfforddiant arweinyddiaeth a gwaith pwnc-benodol. Dywedwyd wrth yr aelodau hefyd fod ystod enfawr o ffactorau cymhleth mewn Ysgolion Uwchradd, sy'n anos i'w newid nag mewn Ysgolion Cynradd, ond bod ysgolion yn gwella, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu monitro. Gallai rhai ysgolion gael chwe argymhelliad, a allai awgrymu fod diffyg yn yr ysgol honno, ond mewn gwirionedd, roedd yr ysgol yn gwella. Fel partner allanol, roedd yr EAS yn grymuso ysgolion.

Dywedodd y Cynghorydd Her fod categorïau ysgolion yn newid am lawer o resymau e.e. gallai safonau fod yn dda, ond pe bai Pennaeth a Dirprwy yn gadael yna byddai angen cefnogaeth ychwanegol ar yr ysgol.

- Trafododd yr aelodau newidiadau sydd ar y gweill i'r systemau categoreiddio a gofyn a fyddai'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru.

Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai'n cael ei ail-lunio'n genedlaethol, er y bydd proses apelio ar gyfer ysgolion nad ydynt yn hapus â'r categori.

- Cyfeiriodd Aelod at dudalen 23 yr adroddiad a soniai am lai o wariant, a gofynnodd sut y byddai niferoedd staffio yn cael sylw ac yn cael eu rheoli yn y tymor hir.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod pwysau mawr ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac eisoes, nid oedd llawer o wasanaethau craidd ar ôl. Byddai'r Cyd-grŵp Addysg a rheolwyr busnes yn trafod hyn ymhellach a byddai ysgolion rhwydwaith Dysgu yn gallu helpu ar gyfer pynciau eraill.

- Cyfeiriodd Aelod at dudalen 21 yr adroddiad a gofyn beth oedd y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau ar gyfer llywodraethu.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod un ysgol nad oedd wedi ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi newid yw sicrhau bod incwm yn cael ei

gynhyrchu gan ysgolion, felly yn ogystal â thîm craidd roedd rhywfaint o hyblygrwydd i gefnogi'r galw. Cyfrifoldeb craidd yr awdurdod lleol oedd hyrwyddo rhaglenni hyfforddi.

- Holodd Aelod am yr heriau a wynebir er gwaethaf y berthynas bartneriaeth iach.

Dywedwyd wrth yr aelodau, yn achos yr ysgolion sy'n peri pryder, bod yr awdurdodau lleol yn herio'i gilydd trwy waith sy'n cael ei wneud mewn ysgolion. Mae cyfarfod sicrhau ansawdd misol gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Addysg bob mis ac mae'n anfon y materion y mae'n dymuno eu trafod at EAS. Byddai cynadleddau achos hefyd yn cael eu cynnal i sicrhau bod y bobl angenrheidiol yn mynychu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gwahoddedigion am fynychu.

Casgliadau

Nododd y Pwyllgor adroddiad Gwerth am Arian y Gwasanaeth Cyflawniad Addysg Blwyddyn Ariannol 2018-19 a **chytunodd** i anfon y Cofnod at y Gwasanaeth Cyflawniad Addysg ac Aelod y Cabinet fel crynodeb o'r materion a godwyd ac yn benodol, y sylwadau a ganlyn:

- Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r adroddiad a ddaeth i'r casgliad fod gwerth cyffredinol am arian a chanmolodd y dystiolaeth o'r berthynas adeiladol rhwng yr EAS a'r Awdurdod Lleol; y rhaglen o gefnogaeth gadarn (offer) sydd ar gael, a'r parch proffesiynol at ei gilydd i herio a datblygu'r gefnogaeth a ddarperir. Fodd bynnag, gallai'r adroddiad gynnwys mwy o wybodaeth am risg a lliniaru.
- Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch sefyllfa ariannu anhysbys Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gwasanaeth Cyflawniad Addysg ar gyfer y flwyddyn nesaf.
- Roedd y Pwyllgor yn siomedig, yn dilyn argymhelliad adroddiad 2017-18 i weithio gyda chonsortia eraill i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer asesu Gwerth am Arian ar lefel ranbarthol, nad oedd y gymhariaeth hon wedi gallu bwrw ymlaen gan nad oedd pob un o'r rhanbarthau wedi cyflwyno/gwirio eu data.
- Croesawodd y Pwyllgor y cynnydd yng nghanran yr ysgolion cynradd "Gwyrdd" ar draws y Rhanbarth, ond mynegodd bryder ynghylch canran yr Ysgolion Uwchradd "Coch" ledled y Rhanbarth mewn perthynas â Chyfartaledd Cymru; fodd bynnag, yn dilyn esboniadau llafar y Swyddogion, roedd yn cydnabod y bu gwelliannau yn yr Ysgolion Categori "Coch".
- Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch effaith bosibl y Cwricwlwm newydd ar Gategoreiddio yn y dyfodol.

Sylwadau i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad - Pobl:

- Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y ganran uchel o Ysgolion Uwchradd yn y Categori Coch ar gyfer 2018-19 ar draws Rhanbarth EAS a gofynnodd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad - Pobl gael gwybod am eu pryder i'w gadw mewn cof wrth ystyried adroddiadau ar Berfformiad Ysgol yng Nghasnewydd.

3 Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 2018-2019

Mynychwyr:

- James Harris (Cyfarwyddwr Strategol - Pobl)
- Phil Diamond (Tîm Rhanbarthol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol)

Cyflwynodd Cynrychiolydd Tîm y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drosolwg byr i'r Pwyllgor gan dynnu sylw at y meysydd allweddol i'w hystyried.

Gofynnodd yr Aelodau y canlynol:

- Cyfeiriodd Aelod at y Themâu Craidd a restrir ar dudalen 42 yr adroddiad, a oedd yn faterion tebyg a wynebwyd ledled y rhanbarth, a gofynnodd a wnaeth y Partneriaid ymgysylltu ac a oes cydbwysedd rhwng pob Awdurdod.

Er mwyn i'r partneriaid lwyddo, dywedwyd wrth yr aelodau bod angen iddynt weld gwerth mewn gweithio gyda'i gilydd ac ymgysylltu. Roedd y blaenoriaethau a amlygwyd ar dudalen 43 yn rhai ledled y wlad ac yn feysydd allweddol i bartneriaid. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol ei bod yn syndod pa mor gyffredin oedd y materion hyn yng Ngwent. Roedd y gweithgareddau a nodwyd ar y cyfan i gyd yn faterion cyffredin. Pe bai map yn cael ei ddarparu ar gyfer y rhai mewn angen, fel Gofalwyr Ifanc a Dementia, byddai manau problemus ledled y rhanbarth, ond mae Casnewydd yn cael cyfran deg, ac roedd ganddi'r un proffil yn fras.

- Canmolodd Aelod y gwasanaeth a ddarparwyd a chydabod ei fod yn heriol darparu cefnogaeth mewn 28 diwrnod, ond gofynnodd a ellid gwella ar yr amser.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod y 28 diwrnod yn amserlen a osodwyd gan Lywodraeth Cymru; fodd bynnag, mae'r rhanbarth hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer ymateb. Yna gofynnodd yr aelodau a oedd sgôp yn y gwasanaeth pe bai materion rhywun yn gwaethygu, a allai'r tîm ymateb yn gyflymach. Dywedwyd bod ymarferydd lechyd Meddwl yng Nghanolfan yr Heddlu felly pe bai achos difrifol yna gallent gymryd y camau angenrheidiol.

- Gofynnodd Aelod pa wersi a ddysgwyd gan amrywiol baneli dros y flwyddyn.

Dywedodd y Swyddog Rhanbarthol fod panel dinasyddion rhanbarthol sy'n bwydo'n ôl ac yn craffu ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mhob cyfarfod. Roedd cyfarfodydd hefyd yn y 50+ a'r Fforymau leuenticid. O ran pob adroddiad yn tynnu sylw at gynnydd, roedd angen i'r bwrdd sicrhau bod llais y dinasyddion yno o bob fforwm.

- Cyfeiriodd Aelod at y canlyniadau cadarnhaol a restrir yn yr adran cynnydd, ond roedd yn teimlo bod diffyg gwrthrychedd a gofynnodd sut roedd y Bartneriaeth yn gwerthuso cynnydd.

O ran cynnydd, dywedwyd wrth yr aelodau fod y Bwrdd Partneriaeth wedi nodi heriau cyfartal a bod mecanwaith adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gyda chynlluniau gweithredu wedi'u gwerthuso ym mhob cyfarfod. Byddai cynnydd yn erbyn pob blaenoriaeth ond hefyd heriau yn cael eu hamlygu ym mhob adroddiad.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod blaenoriaethau'n cael eu hariannu i raddau helaeth trwy'r projectau Cronfa Gofal Integredig, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol gwerthuso'n fanwl, a fyddai yn ei dro yn cael ei werthuso'n drylwyr gan y Grŵp Partneriaeth Strategol. Cymerai hyn lawer iawn o amser. Bob blwyddyn roedd gwerthusiad p'un a yw'r project yn mynd yn ei flaen ai peidio. Roedd rhai wedi cwmpo ar ochr y ffordd.

Atgoffodd y Cynghorydd Craffu ar y Pwyllgor y byddai hyn yn destun adroddiad yn y dyfodol a gaiff ei gynnwys ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor ym mis Hydref.

- Gofynnodd Aelod beth oedd y prif heriau a wynebai'r grŵp.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol y gallai gwaith partneriaeth fod yn heriol ar adegau. Am nifer o flynyddoedd roedd y Bartneriaeth wedi bod mewn cyfnod o 'rannu a chyfrannu' (storming), gyda'r nifer fawr o gynrychiolwyr yn eistedd ar fwrdd y bartneriaeth, ond roedd

bellach ar y pwynt lle gallent fod yn agored iawn a herio'r partneriaid yn briodol. Fodd bynnag, ni fu'n hawdd bob amser a chafwyd cyfarfodydd anodd.

Dyweddodd y Swyddog Rhanbarthol mai her arall oedd dysgu sut i weithio gyda phartneriaid a'r Bwrdd Iechyd wrth i'r dirwedd newid. Roedd Awdurdodau Lleol wedi rhannu'r cyllid Rhanbarthol i'w helpu i gyd i gyrraedd yr un safon. Mae Gwent yn ardal ranbarthol fwy amrywiol nag eraill oherwydd bod ganddi bum Awdurdod Lleol yn Rhanbarth y Bwrdd Iechyd yn ffurfio'r Bartneriaeth Ranbarthol.

- Holodd Aelod am drosiant/cadw staff a gofynnodd a p'un a oedd y bartneriaeth yn gweithio gyda chyn-filwyr.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y trosiant yn amrywio mewn gwahanol feysydd, ac o ran y staff a oedd yn gweithio'n benodol i gefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, roedd y trosiant yn isel. Roedd y trosiant o fewn gofal cymdeithasol yng Nghasnewydd yn arafu, ynghyd â throsiant staff yn y Gwasanaethau Cymdeithasol Plant. Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn profi trosiant arafach nag y bu, felly nid oedd yn achosi unrhyw anawsterau i Gasnewydd. Y tu hwnt i wasanaethau'r Cyngor, roedd trosiant staff mewn Gofal Domestig ar draws y rhanbarth yn gyflymach, ond roedd yn anodd recriwtio yn y lle cyntaf.

Yna cynghorodd y Swyddog Rhanbarthol y Pwyllgor fod y partneriaid wedi datblygu llyfr stori ar gyfer ysgolion sydd â'r ethos o helpu pobl i gael gwaith mewn gofal cymdeithasol. Roedd Coleg Gwent wedi nodi nad oedd 70% o ddisgyblion yn dilyn gyrfa. Mae'r llyfr yn awgrymu bod gofalwyr a nyrsys yn brif arwyr, ac mae'n rhan o gynllunio sut mae angen i recriwtio i yrfaedd iechyd a gofal cymdeithasol edrych yn y dyfodol – mae cyn-filwyr yn gysylltiedig â hyn i raddau helaeth.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Strategol ei fod yn mynychu cyfarfod bwrdd iechyd meddwl, a gynhaliodd cyflwyniad am y lluoedd arfog, y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt a sut y dylai gwasanaethau ledled y rhanbarth weithio gyda'i gilydd i gefnogi. Er bod llawer i'w wneud, roedd ffocws ar hyn.

- Gofynnodd Aelod a ellid cynnwys menter Fy Ffrind yn y gwaith partneriaeth rhanbarthol.

Dyweddodd y Swyddog Rhanbarthol y byddai hyn yn cael ei fwydo yn ôl i'r Bartneriaeth Iechyd Meddwl a dywedodd fod y cyflwyniad a gafwyd yn bwerus iawn, a'i fod yn hyrwyddo hunanwerth a chyflogaeth fel ei brif flaenoriaeth.

- Gofynnodd Aelod beth oedd yr heriau wrth symud ymlaen, o ystyried bod y berthynas bartneriaeth wedi aeddfedu a gwella.

Dyweddodd y Swyddog Rhanbarthol fod nifer o heriau, a oedd yn cynnwys iechyd meddwl pobl iau a phoblogaeth sy'n heneiddio ac yn cynyddu. Byddai'r Bartneriaeth Ranbarthol yn tynnu sylw at yr hyn y gellir ei wneud i ofalu am bobl.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y bartneriaeth wedi bod yn darparu gwasanaethau a swyddogaethau gyda chyllid y Gronfa Gofal Integredig i feysydd a nodwyd yn genedlaethol neu gan y Bartneriaeth. Roedd potensial ar gyfer effaith a newid trwy gyfleoedd gweithio ar y cyd e.e. Hyb Ringland. Byddai pobl yn dod yn fwy ymwybodol ac eisiau gwasanaethau yn gyflymach yn y dyfodol. Byddai'r angen am flaenoriaethu yn dod yn bwysicach a byddai'n heriol yn y blynyddoedd i ddod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gwahoddedigion am fynychu.

Casgliadau

Nododd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol 2018-19 a **chytunodd** i anfon y Cofnod at y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Aelod Cabinet fel crynodeb o'r materion a godwyd ac yn benodol, y sylwadau a ganlyn:

- Cydnabu'r Pwyllgor nad oedd Llywodraeth Cymru wedi mynnu bod Cynllun Gweithredu yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad statudol a ddarparwyd, ond daeth i'r casgliad, heb y data a'r wybodaeth y cyfeiriwyd atynt gan Swyddogion o Gynlluniau Gweithredu a Dangosfyrddau a ddefnyddiwyd yn eu hadroddiadau i'r Bwrdd Partneriaeth yn eu hymatebion llafar i gwestiynau'r Aelodau, byddai wedi bod yn anodd sefydlu lefel y cynnydd cyffredinol sy'n cael ei wneud.
- Cydnabu'r Pwyllgor yr her a'r blaenoriaethau ledled y rhanbarth a chroesawodd y berthynas broffesiynol ac aeddfed sy'n datblygu rhwng partneriaid a chydbwysu'r budd gorau a buddion gweithio ar y cyd yn cael ei gofleidio a'i symud ymlaen e.e. yr Hyb. Roedd yn ymddangos bod aeddfedrwydd casgliadoldeb wrth symud ymlaen gyda disgwyliad o gyd-ymddiriedaeth a pharch ymhlith partneriaid, a groesawyd gan y Pwyllgor.

4 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

Yn mynychu:

- Meryl Lawrence (Cynghorydd Craffu)

a) Diweddariad ar y Flaenraglen Waith

Cyflwynodd y Cynghorydd Craffu y Flaenraglen Waith, a chynghorodd y Pwyllgor o'r pynciau a drefnwyd ar gyfer dau gyfarfod nesaf y Pwyllgor, fel a ganlyn:

Dydd Mercher 9 Hydref 2019:

- Grant Trawsnewid Rhanbarthol
- Projectau Cyfalaf a Refeniw'r Gronfa Gofal Integredig
- Cynllun Gweithredu wedi'i Ddiweddarau y Gwasanaethau Adnoddau a Rennir

Dydd Mercher 4 Rhagfyr 2019:

- Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Rhanbarthol
- Diweddariad ar Ddatblygu Trefniadau Maethu Rhanbarthol

Cynghorodd hefyd ar y rhestr o Friffiadau yr oedd y Pwyllgor wedi gofyn amdanynt, gan gynnwys Trosolwg o drefniadau partneriaeth Casnewydd Fyw, Norse a Wastesavers, gan gynnwys ymweliad â safle Wastesavers.

Gofynnodd y Pwyllgor am archwilio dyddiad posibl yn ystod yr wythnosau sy'n dechrau 16^{eg} a 23^{ain} Medi ar gyfer Wastesavers.

b) Taflen Weithredu

Gan mai dim ond ar 26 Mehefin 2019 y cynhaliwyd cyfarfod blaenorol y Pwyllgor, dywedodd y Cynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor y byddai'r Cofnodion a'r Daflen Weithredu yn cael eu hadrodd i'r Cyfarfod Pwyllgor nesaf.

c) Adroddiadau Gwybodaeth

Dyweddod y Cynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw adroddiadau Gwybodaeth i dynnu sylw'r Pwyllgor atynt.

d) Llythyrau Craffu

Dyweddod y Cynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw Lythyrau Craffu i dynnu sylw'r Pwyllgor atynt.

Daeth y cyfarfod I ben am 7.20 pm